PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 41 Hydref 10, 2024 50c.

## HEDDWCH DDOE A HEDDIW



Prin fod yr un lle'n fwy heddychol na phentre bach Pen-y-bont, sy'n ddwfn yn y bryniau gerllaw Tre-lech yng ngogledd-orllewin Sir Gâr. A 'Heddwch' oedd testun y prifardd a'r meuryn Tudur Dylan Jones, y siaradwr gwadd yng nghyfarfod hwyrol cwrdd chwarter Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin ar noson braf 12 Medi.

### Cyswllt lleol y Ddeiseb Fawr

Wrth gyfeirio at Ddeiseb Heddwch fawr merched Cymru yn 1923, fe gyflwynodd Tudur Dylan sleid ar y sgrin fawr o dudalen o'r ddeiseb oedd yn dangos bod nifer o ferched Ben-y-bont ymhlith y 400,000 oedd wedi'i harwyddo. Roedd rhai o'r aelodau ymhlith y 40 oedd yn bresennol yn y capel bach yn adnabod enwau'r llefydd a'r bobl hynny.

### Radar milwrol Sir Benfro

Wrth symud ymlaen i sôn am yr angen i sefyll dros heddwch heddiw, dangosodd lun o'r 'fferm radar' anferth y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn am ei sefydlu ym Mreudeth, ger



pentre Solfach yn Sir Benfro. Dywedodd bod angen ymgyrchu yn eu herbyn, fel y gwnaeth trigolion ardal Llangyndeyrn yng nghwm Gwendraeth yn wyneb y bygythiad i adeiladu argae a boddi ardal eang yno. Dangosodd fap o'r ardal a nodi enwau nifer o gaeau oedd yn cynnwys yr elfen 'heddwch'.

### Emyn heddwch?

Rhestrodd Tudur Dylan rai pobl a gefnogodd rhyfela, gan gyfeirio at emyn poblogaidd Eifion Wyn, 'Efengyl tangnefedd' sy'n gorffen gyda chyfeiriad at 'ryfel yr Oen'. Eglurodd bod 'rhyfel yr Oen' yn ddisgrifiad o'r Rhyfel Byd Cyntaf bryd hynny – rhyfel yr oedd Eifion Wyn yn gefnogol iawn iddi. Wrth arwain oedfa mewn un capel, meddai, fe wnaeth ofyn i'r gynulleidfa orffen gyda'r geiriau 'Fel na byddo mwyach na dial na phoen / Na chariad at ryfel.' Ond fe wnaeth un o'r gynulleidfa anghofio hynny, a chanu ymlaen 'na rhyfel yr Oen'. Ar ddiwedd yr oedfa, fe wnaeth yr organyddes ymddiheuro i Tudur Dylan, gan gyfaddef mai ei gŵr oedd y troseddwr, a fyddai'n cael stŵr ganddi ar ôl mynd adre!

### Cas-i-neb

Esboniodd sut y gellir rhannu'r gair 'casineb' i dair rhan a chael ystyr hollol wahanol: 'cas-i-neb'. Cyfeiriodd at nifer o bobl a wnaeth dda oherwydd eu ffordd o fyw, e.e. Henry Richard, Tregaron oedd yn cael ei adnabod yn rhyngwladol fel yr Apostol Heddwch.

### Heddwch a rhyfel yn y Beibl

Yn y Beibl fe welir y gair heddwch 173 o weithiau, y gair tangnefedd 65 gwaith, ond ceir bron i 450 o gyfeiriadau at ryfel, rhyfela neu ryfelwr. Rhoddwyd cryn dipyn o sylw yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni i Prosser Rhys a enillodd y Goron yn yr Eisteddfod ganrif yn ôl, ond ni chyfeiriwyd at yr emyn 'Duw a Thad yr holl genhedloedd' (*Caneuon Ffydd* 825) a genir ar y dôn 'Tangnefedd' ac a gyfansoddwyd gan Olive V. Williams Davies, merch o Bont-y-gwaith, Cwm Rhondda. Daw geiriau pennill olaf yr emyn o Eseia 48, adnod 18 – 'byddai dy heddwch fel yr afon, a'th gyfiawnder fel tonnau'r môr.'

Wrth gloi, gofynnodd Tudur Dylan i aelodau'r cyfundeb i arwyddo deiseb yn erbyn fferm radar Sir Benfro, fel y gwnaeth aelodau Pen-y-bont yn achos y Ddeiseb Heddwch ganrif yn ôl.

(*Seiliedig ar nodiadau Joan Thomas, Cofnodydd y Cyfundeb. Lluniau gan Alun Lenny. Bydd hanes gweddill y Cwrdd Chwarter mewn rhifyn pellach o'r* Tyst)

## Arddangosfa arbennig



Yn ddiweddar, cynhaliodd aelodau a ffrindiau Capel Seion arddangosfa gwiltio hynod lwyddiannus i godi arian ar gyfer boeler a system wresogi newydd, mawr ei angen. Trawsnewidiwyd y capel yn arddangosfa fywiog o waith rhyfeddol, gydag amrywiaeth ddisglair o gwiltiau, clustogau, teganau, a hyd yn oed ddillad yn cael eu harddangos. Roedd y crefftwaith a arddangoswyd yn wirioneddol ysbrydoledig, gan ddenu ymwelwyr o bell ac agos i edmygu creadigrwydd ac ymroddiad ein cyfranwyr dawnus.

Roedd y digwyddiad nid yn unig yn rhagori ar ein nodau codi arian ond hefyd yn dod â'r gymuned ynghyd mewn ysbryd o gydweithio a dathlu. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd eu talentau mor hael ac i bawb ddaeth i weld y wledd. Bu'r hanes ar raglen *Prynhawn Da*, S4C.

# Un *Cwmni Bach* arall: Lleuwen

Mae'n siŵr eich bod chi'n gyfarwydd â'r podlediad *Y Cwmni Bach* sy'n gyfres o sgyrsiau hamddenol gyda phobl amrywiol o bob cefndir ac o bob cwr, sydd ar gael o hyd ar wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Erbyn hyn, mae'r gyfres wedi dod i ben, cafodd dderbyniad brwd. Mae'r *Cwmni Bach* yn gyfle i ni drafod pob math o bethau, o droeon yr yrfa, gwahanol brofiadau a pherthynas â Christ.

Y mae gennym ni un podlediad ychwanegol go arbennig i chi y mis Hydref hwn, sef sgwrs a wnaed gyda Lleuwen Steffan ar ddiwedd rhan gyntaf ei thaith *Tafodau Arian* yn gynharach eleni. Y mae Lleuwen yn teithio drwy Gymru eto, ewch i'w gweld yn perfformio, mae'n dipyn o brofiad. Yn y cyfamser, mwynhewch y sgwrs a gafwyd gyda Lleuwen yn stiwdio'r Cwmni Bach, ble bu'n siarad am ei magwraeth, ei chreadigrwydd, ei ffydd, a mwy.

Mae holl bodlediadau'r *Cwmni Bach* ar gael ar wefan yr Undeb yn ogystal ag ar blatfformau YouTube, Spotify ac AppleMusic.

Mwynhewch!



## Tasglu Cristnogol Sir Benfro

Ers blwyddyn bellach mae yna ddatblygiadau cyffrous wedi bod yn digwydd ymhlith Cristnogion Sir Benfro. A hynny mewn ymateb i'r dirywiad sydd yn digwydd o'n cwmpas ym mhob man. Cynhaliwyd dau gyfarfod anenwadol ym Maenclochog gyda thyrfa fawr yn bresennol.

O ganlyniad sefydlwyd Tasglu Cristnogol Sir Benfro gyda'r bwriad o edrych ar sut y gellir sicrhau'r dyfodol. Y nod yn y pen draw yw sefydlu eglwys unedig i Sir Benfro. A byddai'r eglwys yma yn ychwanegol at, ac nid yn lle unrhyw eglwys neu eglwysi sydd yn bodoli yn barod.

Mae'r tasglu wedi trefnu dwy oedfa gyffrous ar gyfer yr wythnosau nesaf yma. Ar 27 Hydref bydd oedfa yng nghwmni Delwyn Siôn yn neuadd Maenclochog am 6pm (gweler y poster). A bydd oedfa yng nghwmni Lleuwen Steffan yn y Tabernacl, Maenclochog ar 17 Tachwedd.

Croeso cynnes i bawb. Byddai'n dda gweld cynulleidfa sylweddol yno i addoli ac i gefnogi'r fenter newydd yma.

(Aelodau Tasglu Cristnogol Sir Benfro )




## Eglwys Nebo Felindre Abertawe

Cynhelir

**OEDFA ARBENNIG**

i ddathlu

**Daucanmlwyddiant yr eglwys**

**Dydd Sadwrn 19 Hydref 2024**


**am 2.00.**

**Llywydd:**
**Y Parchg Meirion Evans**
**Porth Tywyn**

**Croeso cynnes i bawb**

**Te'r dathlu, wedi'r oedfa, yn neuadd y pentref**

**Maes parcio: neuadd y pentref**



Yr Adran Gydenwadol

HYDREF 10 2024 RHIF 189

# 7 Hydref – blwyddyn o ryfela yn Gaza

Bydd gan rywrai gysylltiad penodol â phob dyddiad ar y calendr, ond bydd gan 7 Hydref 2023 ei gysylltiadau i ganran sylweddol o'r ddynoliaeth. Bydd hynny oherwydd yr hyn a wnaeth Hamas wrth ladd rhai a chipio eraill mewn ymosodiad ar ddigwyddiad cerddorol diniwed.

Bellach, aeth blwyddyn heibio ac mae poblogaeth Gaza wedi symud droeon, gan adael ton ar ôl ton o feirwon yn dilyn y bomio arswydus sydd wedi digwydd. Clywsom gri galar y Palestiniaid, beirniadaeth gynyddol o gyfeiriad gwledydd y Gorllewin. Ond bu'r prif weinidog Iddewig, Benjamin Netanyahu, yn gyson styfnig, gan wrthod unrhyw sôn am gadoediad. Buom yn lobïo o blaid heddwch, gyda chynghrair y Cenhedloedd Unedig yn cydlynu trafodaethau i gynnig cynlluniau er mwyn dod â'r rhyfel i ben.

Condemniodd mwyafrif sylweddol o lywodraethau'r byd yr ymosodiad gwreiddiol, a chytuno bod gan Israel hawl i'w hamddiffyn ei hun. Cyfrannodd nifer o wledydd y Gorllewin arian i estyn cymorth i'r Palestiniaid yn Gaza. Bu'r Cenhedloedd Unedig hefyd yn ymdrechu i geisio cael deialog rhwng yr Iddewon a'r Palestiniaid er mwyn sicrhau cadoediad, neu o leiaf gyfnod heb ymladd er mwyn darparu cymorth meddygol, dŵr glân a bwyd i gynorthwyo'r ffoaduriaid o fewn Gaza.

Erbyn hyn, mae'r sefyllfa wedi gwaethygu'n ddirfawr. Bu'r ymosodiadau ar ganolfannau Hezbollah a laddodd rai o'u harweinwyr yn heriol, ac yna ymosodiadau Iran yr un mor sydyn. Mae'r byd yn holi beth yw pen draw yr erchyllterau hyn. Nid oes ateb amlwg. Pan ddylai polisi'r Unol Daleithiau fod yn gadarn, yr hyn a glywsom oedd i Donald Trump ymosod ar Kamala Harris a'r Arlywydd Biden, gan ddweud eu bod yn caniatáu dechrau'r Trydydd Rhyfel Byd.



Llun: Cymorth Cristnogol

Doethach o lawer oedd galwad Antonio Guterres, Ysgrifennydd y Cenhedloedd Unedig, am atal yr ymosodiadau ac ymddiried trefniadau cadoediad iddo ef a'i staff.

Fel ym mhob sefyllfa o ryfel, aeth iaith pawb i sôn am ddialedd eithafol a'r cysyniad o 'dalu yn ôl', gyda'r naill ochr yn beio'r llall. Mae rhyfel yn ei natur yn ddifaol; mae'n lladd pobl, yn dinistrio adeiladau, yn gwenwyno'r amgylchedd ac yn chwalu anian cymdeithas. Mae cost rhyfel ym mhob ystyr yn anfesuradwy. Ac eto, pan ddaw anghydfod o fewn gwladwriaeth neu ar draws ffiniau gwledydd, bydd yr ysgyrnygu dannedd yn troi'n ymosodiad milwrol. Mae Israel yn hawlio'u bod yn amddiffyn eu tir, tra mae arweinwyr Gaza a'r Llain Orllewinol yn tystio bod Israel yn manteisio ar bob cyfle i 'ddwyn' eu tiroedd ac yn cyrchu at y nod o hawlio'r tir sydd ar hyn o bryd yn gartref i'r Palestiniaid.

Hedfanodd dwy flynedd a hanner ers ymosodiad gwreiddiol Rwsia, ar 24 Chwefror 2022, ar diroedd Wcráin. Prin bod sicrwydd faint o filwyr a laddwyd ac a niweidiwyd yn ddifrifol. Dyfalir bod rhwng 21,000 a 25,000 o filwyr Rwsia wedi eu lladd neu eu niweidio'n wael, a bod 35,000 o filwyr Wcráin wedi dioddef. Nid oes sicrwydd na chytundeb am yr ystadegau hyn; ac nid ystadegau yw marw pobl. Mae pob un farwolaeth yn alar i deuluoedd a chymunedau. Peidiwn ag anghofio bod Rwsia ac Wcráin yn wledydd Cristnogol, a llawer o'u plith yn perthyn i ryw adran o'r eglwys Gatholig. Yn y Dwyrain Canol yn gyffredinol ceir nifer o gyrff Cristnogol, ac yn Iran a Lebanon ceir rhyddid cydwybod fel rhan o gyfraith y wlad. Ceir clwstwr o eglwysi yn Beirut, fel sydd ym mhrifddinas Iran. Mae Eglwys Gadeiriol Sant Sarkis yn perthyn i'r Eglwys Apostolaidd, ond beth bynnag yr enwad, bydd teulu'r ffydd ledled y byd yn awyddus i eiriol dros holl Gristnogion y Dwyrain Canol ar hyn o bryd.


Beth felly sydd gan eglwysi Cymru i'w wneud? Onid gweddïo, cefnogi'r mudiadau dyngarol, lobïo'r llywodraethau yng Nghaerdydd a San Steffan, a cysylltu â'r Cenhedloedd Unedig i'w hannog i godi llais yn uwch. Mae Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr (BMS) eisoes wedi sefydlu cronfa apêl i gefnogi pobl Lebanon, ac mae'n siŵr y byddwn yn derbyn ceisiadau tebyg o bob cyfeiriad i ddangos cefnogaeth ymarferol.

Ar sawl gwedd, mae llais America yn wannach gan fod yr etholiad arlywyddol ar y gorwel. Bu llais Ayatollah Sayyid Ali Khamenei, arweinydd Mwslemiaeth yn Iran, yn annog mwy o ddialedd rhyfelgar, ac ofnwn y bydd mwy o ddinistrio a lladd cyn y daw'r gyflafan hon i ben. Gweddïwn y bydd lleisiau gwleidyddol a chrefyddol y byd yn darganfod ffyrdd o droi'r gwaywffyn yn bladuriau, a hynny ar fyrder.

*Denzil John*

# ‘Ni adewir yma faen ar faen’ – yr her i Ymneilltuaeth yr 21ain ganrif

Glyn Tudwal Jones, cyn-weinidog Eglwys y Crwys, Caerdydd, yw awdur ysgrif agoriadol rhifyn cyfredol *Y Traethodydd*. Ynddi mae’n trafod yr her genhadol sylweddol sy’n wynebu’r eglwysi a ninnau bron wedi cyrraedd ail chwarter yr unfed ganrif ar hugain. ‘Maen ar faen’ yw ei theitl, gan adleisio geiriau Iesu yn yr efengylau wrth gyfeirio at y deml ysblennydd yn Jerwsalem: ‘Edrych, Athro, y fath feini enfawr a’r fath adeiladau gwych!’ A’i ateb: ‘Yn wir, rwy’n dweud wrthych, ni adewir yma faen ar faen; ni bydd yr un heb ei fwrw i lawr’. Prin y dychmygai neb ohonom, blant yr ugeinfed ganrif, y gallai holl strwythurau Ymneilltuaeth ffyniannus y ganrif honno ddadfeilio mewn amser mor fyr.




Nid galarnadu a wna’r awdur, fodd bynnag, ond dadansoddi sut y digwyddodd hyn, a chynnig ffordd synhwyrol ymlaen. Os dinistriwyd teml Jerusalem wedi dyddiau Iesu, cafwyd ailadeiladu hefyd. Ac fel y sicrhaodd amaethwyr Dyffryn Clwyd ddiogelwch i’w cartrefi trwy godi muriau cadarn yn ôl angen, felly mae modd i Gristnogion Cymru weithredu’n gadarnhaol. ‘Gadael i Grist gael ei ymgnawdoli o hyd ym myd hagr yr unfed ganrif ar hugain: dyna dasg yr eglwys’, meddai. ‘Eilradd yw popeth arall’. Darllenwch yr ysgrif wybodus, gall a hyderus hon.

Cafwyd adolygiad yn rhifyn Gorffennaf o’r *Traethodydd* o gyfrol yr hanesydd John Harding ar feddwl a gwaith Griffith Jones Llanddowror a’i gyfraniad enfawr i fywyd crefyddol a diwylliannol Cymru. Fel llenor creadigol mae’n ymddangos y tro hwn, awdur y stori fer swynol ‘Yr Alarch’. Brodor o Deal yng Nghaint yw John Harding, ac yno mae’n byw. Nid cyfrwng ymchwil academaidd yn unig mo’r Gymraeg iddo, ond fel y dengys y stori hon, mae’n gyfrwng llenydda creadigol yn ogystal. Nid dyma’r stori fer gyntaf o’i eiddo i ymddangos ar ein tudalennau, a hyfryd yw cael ei groesawu ’nôl.

Gerald Morgan, yr hanesydd diwyd o Aberystwyth, sydd nesaf, yn rhannu ei ymchwil i fywyd, gwaith a chyfraniad dau o offeiriaid anghofiedig Ceredigion, Lewis Evans o Lanfihangel Genau’r-glyn, a Lewis Evans, ei fab. Trwy ymchwil orchestol y ddiweddar Mari Ellis a diwydrwydd Meg, ei merch, yn sicrhau bod gwaith ei mam yn gweld golau dydd, daethom i wybod mwy nag erioed o’r blaen am lafur Gwallter Mechain, Ifor Ceri a gweddill ‘yr hen bersoniaid llengar’. Dyma ddau arall i ymuno â nhw. Ffrwyth clasuriaeth ysgol enwog Ystrad Meurig oeddent, a Lewis Evans y mab yn fyfyriwr yng Ngholeg Oriel, Rhydychen, pan oedd John Henry Newman, tiwtor y coleg hwnnw, yn creu chwyldro Catholig yn Eglwys Loegr. Dychwelyd i Geredigion a wnaeth, i daenu’r ysbryd catholig ymhlith ei blwyfolion cefn gwlad. Difyr yw cael gwybod am gyfraniad y ddau.

Hamddena, ymhlith ieuenctid yn arbennig, rhwng y ddau Ryfel Byd yw thema astudiaeth gyfoethog Llion Wigley, a hon sy’n cael sylw ar glawr y rhifyn. Olrhain newidiadau cymdeithasol yw’r nod, wrth i’r awdur ddadorchuddio lliaws o ffeithiau gan sylwebyddion cyfoes yn dangos fod chwyldro amlwg yn digwydd o’u cwmpas, a hwythau heb fod yn siŵr sut orau i ymgodymu ag ef. Os yw plant canol yr ugeinfed ganrif yn anesmwyth yn y Gymru newydd, felly yr oedd pethau yn nauddegau a thridegau’r ganrif ddiwethaf. Astudiaeth hynod yw hon, a bydd yr ail ran i’w gweld yn y rhifyn nesaf.

Derec Llwyd Morgan a Mary Burdett-Jones, dau o ffyddloniaid y cylchgrawn, yw’n beirdd y tro hwn. Mae’r Dr Hefin Jones yn adolygu cyfrol Carwyn Graves, *Tir: the Story of the Welsh Landscape*, Richard Owen yn rhoi sylw i rifynnau diweddar yng nghyfres *Yr Hen Lyfrau Bach*, a’r golygydd yn tafoli *Gair Duw ar Lafar Gwlad*, cyfrol olaf y diweddar, ysywaeth, Dewi Arwel Hughes. Rhwng popeth, felly, dyma rifyn llawn arall gyda rhywbeth, gobeithio, at ddant pawb.


Anogwn ffyddloniaid *Cenn@d* unwaith eto nid yn unig i ddarllen *Y Traethodydd* ond i’w brynu a’i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar X ac ar Facebook. Y golygydd yw’r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Joanna Thomas-Wright (joanna.thomas-wright@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

# Darlithiau Cymdeithas Waldo 2010–2024

Dyma gasgliad o ddarlithiau ac anerchiadau a drefnwyd gan Gymdeithas Waldo Williams rhwng 2010 a 2024. Ceir amrywiaeth o gyfraniadau, gan gynnwys dadansoddiadau o rai o gerddi’r bardd pwysig hwn ynghyd â chipolwg ar ei gymeriad drwy hanesion ac atgofion rhai a oedd yn ei adnabod.


Mae’n gyfrol ddifyr a gwerthfawr i unrhyw un a fyn ddeall mwy am Waldo Williams a’i waith, ac yn gyfrol allweddol o ran dwyn sylw gwlad at un o ffigurau mwyaf ein cenedl ni. Cyfrol raenus, hardd a chyfoethog o feddyliau a dadansoddiadau treiddgar o farddoniaeth, bywyd a bro Waldo.

*Darlithiau Cymdeithas Waldo, 2010–2024*
£30.00 (Cludiant am ddim)
Siec yn daladwy: Y Faner Newydd
Anfonwch eich archeb at:
Alun Ifans, Erw Grug, Maenclochog,
Sir Benfro, SA66 7LB



## *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr*

gan Gareth Lloyd Jones
(Cyhoeddiadau'r Gair)




**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. W. Bryn Williams ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* gan Gareth Lloyd Jones**

### 5. 'Ruth, y wraig weddw yn cyfarfod Boas' (Ruth 2:1–16)

Cyn dechrau deall yr adran hon, rhaid eto ein hatgoffa ein hunain am gyfnod Llyfr Ruth, cyfnod y Barnwyr yn Israel (1380 a 1050 CC). Roedd yn gyfnod ansicr ac anfoesol, gydag amgylchiadau'r gwan bob amser yn fregus.

Ond eto, roedd Duw yn ei Air wedi gadael arweiniad clir ynglŷn â sut roedd y gymdeithas i ofalu am y weddw a'r amddifad: "Pan fyddi'n casglu'r cynhaeaf, rhaid i ti beidio casglu'r cwbl o bob cornel o'r cae. A phaid mynd drwy'r cae yn casglu popeth sydd wedi'i adael ar ôl ... Rhaid i ti adael peth i bobl dlawd, ac i'r rhai sydd ddim yn bobl Israel. Fi ydy'r Arglwydd dy Dduw di" (Lefiticus 19: 9–10; Beibl.net). Roedd Duw wedi gosod cyfarwyddyd i ddarparu ar gyfer y tlawd a'r estron, cyfarwyddyd i atgoffa'r medelwyr (gweithwyr y cynhaeaf) i beidio â bod yn farus ond gadael bwyd ar ôl yn y caeau fel bod cynhaliaeth ar gyfer yr anghenus yn ogystal.

Wedi cyrraedd Bethlehem, mae Ruth yn dweud wrth Naomi ei bod am fynd i chwilio am fwyd yn y caeau, a rhoddodd Naomi hithau ei bendith ar hynny. Mae Ruth wedyn yn digwydd casglu grawn mewn cae oedd yn perthyn i berthynas i Mahlon, ei gŵr, sef dyn 'cefnog' (adn. 1) o'r enw Boas. Yn llythrennol, mae'r enw Boas yn golygu 'cyflymder', ac yn adnod 1 mae'n cael ei ddisgrifio fel dyn 'cefnog'. Y gair yn yr Hebraeg yma ydy 'chayil', sy'n golygu cryfder nerthol ond hefyd llwyddiant. Gall hefyd olygu 'arwrol'. Mewn ychydig eiriau, down i adnabod Boas fel person llwyddiannus ymhlith ei bobl, yn ddyn cryf ac yn ennyn edmygedd. Person arbennig i fod o'ch plaid mewn argyfwng, ond person hefyd sy'n digwydd perthyn drwy briodas i Ruth. Yn nes ymlaen, gwelwn pa mor allweddol ydy hynny.

O'i gweld yn ei gaeau, mae Boas yn holi ei weithwyr amdani ac yn clywed mai geneth o Moab ydy Ruth a'i bod wedi dod i Fethlehem hefo Naomi a'i bod "wedi bod ar ei thraed o'r bore bach hyd yn awr". Mewn sgwrs hefo Ruth, mae Boas yn ei hannog i beidio â gweithio mewn caeau eraill ond i aros ar ei dir ef a hyd yn oed i yfed "o'r llestri a lanwodd y gweision". Mewn ymateb i syndod Ruth at ei garedigrwydd tuag ati, mae Boas yn cyfeirio at ffyddlondeb Ruth i Naomi, yn gadael ei chartref a dod at bobl ddieithr. Merched Bethlehem, yn siŵr, sydd wedi adrodd am ei ffyddlondeb i Naomi, ac mae hynny'n ateb y cwestiwn a ofynnwyd yr wythnos diwethaf – mai gofal caredig am Naomi oedd yn golygu bod y merched wedi 'cyffroi' o'i gweld yn ôl yn eu plith (1: 19).

Mae Boas yn gorchymyn i'r gweithwyr fod yn ofalus o Ruth, ac mae hynny hefyd yn golygu peidio â manteisio arni. Maent hyd yn oed i dynnu grawn o'r ysgubau ar ei chyfer, gan hwyluso popeth iddi. Mae Ruth yma'n cael ei thrin yn freintiedig, ac mae hynny'n troi'n fendith i Naomi hefyd gyda'r gobaith, o ddod adref, fod y cyfnod 'chwerw' tu ôl iddi erbyn hyn ac y daw ei henw Naomi, 'daioni prydferth', i olygu ei ystyr eto.

**Cwestiynau i'w trafod**:

1. Sut mae Duw wedi trefnu bod gofal dros y tlawd?
2. Ydy Boas yn gwisgo ystyr ei enw hefo anrhydedd?
3. Hyd yn hyn, beth ydym wedi'i ddysgu am berthynas Naomi a Ruth?

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 13 Hydref – Law yn Llaw**

I nodi Mis Ymwybyddiaeth Canser y Fron bydd Lisa Gwilym yn rhannu stori ysbrydoledig Anwen Edwards ac yn clywed sut mae grŵp Cymuned Cefnogaeth Canser a chôr menywod Law yn Llaw yn rhoi cysur a chefnogaeth i gleifion eraill. A chawn wledd o ganu mawl o Gapel Mawr Amlwch.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 13 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Anna Jane Evans

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 13 Hydref, am 12:00yp**

Oedfa dan ofal Lowri Mitton, Yr Wyddgrug




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Gweddi'r hydref



Ein Duw a'n Tad,
yr wyt wedi trefnu fod pedwar tymor i'r flwyddyn;
wele ni yn awr yn troi tudalen ac yn croesawu tymor yr hydref:
tymor ffrwythau aeddfed a chnydau breision;
tymor cynhaeaf, diolchgarwch a dathlu;
tymor ailgychwyn ysgol, a choleg;
tymor y gobeithion a'r dechreuadau newydd,
tymor lliwiau euraid y coed a'r perthi,
tymor diosg y dail a byrhau golau dydd
a thymor paratoi ar gyfer gorffwys y gaeaf.

Cynorthwya ni, Arglwydd, i werthfawrogi dy haelioni
mawr yn nhrefn a phrydferthwch a chynnyrch y cynhaeaf,
ac i fynegi'n llawn ein diolchgarwch
am yr holl roddion a'r breintiau a osodaist arnom.

Cynorthwya ni i barchu dy gread,
i ymatal rhag rheibio a cham-drin y ddaear,
ac fel y bydd natur yn gorffwys ac yn cysgu,
dysg ninnau i gyd-fynd â rhod a phatrwm y tymhorau
ac i fod yn gydweithwyr cyfrifol â thi
ac yn stiwardiaid doeth o'r ddaear a'i chynnyrch.

Cyflwynwn i ti ysgolion a cholegau ein gwlad,
wrth iddynt ddechrau ar raglen newydd o ddysgu ac addysgu;
bendithia'r athrawon, y plant a'r myfyrwyr,
fel y byddant gyda'i gilydd yn tyfu mewn deall doethineb
ac yn eu paratoi eu hunain i fyw i'r wasanaethu di
trwy wasanaethu cymdeithas a chyd-ddyn.

Fel y bydd natur yn rhoi ei hun o flwyddyn i flwyddyn
mewn cynnyrch a ffrwythlondeb,
helpa ninnau i'n rhoi ein hunain mewn cariad ac ymroddiad
i ti, ein Duw, ac i waith dy deyrnas.
Yn enw Iesu. Amen.

**Elfed ap Nefydd Roberts**


Cristnogaeth 21

## Swyddog Cyfryngau C21

**Cyfle i gyfrannu'n greadigol at waith elusen Gristnogol gyfoes a chynhwysol.**

Mae Cristnogaeth 21 yn awyddus i gynnig cytundeb achlysurol i berson cymwys i gydlynu a datblygu ei weithgareddau digidol a chyfryngol.

Prif amcan y swydd fydd cynorthwyo Pwyllgor Gweithredol C21 i gadw gorolwg strategol dros holl gyfryngau digidol y grŵp, ynghyd â datblygu a chydlynu'r cynnwys. At hynny, disgwylir i'r swyddog fedru darparu cyngor technegol cymwys er mwyn cynnal y platfformau digidol presennol a hwyluso datblygu rhai newydd.

Gellir cael manylion pellach drwy anfon neges at cristnogaeth21@gmail.com.
Mae manylion am C21 i'w cael ar ein gwefan: www.cristnogaeth21.cymru.

Os am sgwrs, mae croeso i chi ffonio Ysgrifennydd C21, Gareth Ioan, ar 07966 936297.

Dyddiad cau: Dydd Gwener, 18 Hydref 2024.

*Hwylusir C21 gan yr elusen Llusern - Cristnogaeth 21 Cymru (rhif elusennol: 1011618).*


# Dim amser

'Does gen i ddim amser.' Dyma eiriau a glywn yn aml. Dywedir fod llai a llai o deuluoedd ag amser i eistedd a bwyta fel teulu. Does dim amser i wrando ar ein gilydd fel o'r blaen, meddai eraill. Does dim amser i helpu'r gwan. Dim amser i addoli a gweddïo. Gwelwn ein capeli a'n heglwysi'n cau am nad oes amser i gofio Creawdwr a Gwaredwr am un awr mewn wythnos. Gwelwn ein cymunedau yn dadfeilio a'r ymwybyddiaeth o berthyn yn peidio. Mae pobl i weld mor brysur yn byw fel nad oes ganddynt amser i ystyried pwrpas na chyfeiriad eu bywyd.

**Egwyl**

Gwyddai'r Arglwydd Iesu Grist am yr angen i gael toriad ac egwyl o brysurdeb ei waith. Wrth ddarllen hanes ei fywyd yn y Beibl gwelwn fod ganddo amser i fwyta gyda'i deulu a'i ffrindiau yn ogystal ag amser i helpu pobl wan ag anghenus. Yn sicr roedd ganddo amser i weddïo ac addoli'n gyson o ddydd i ddydd. Mae'r Beibl yn ein hannog o hyd i wneud amser i gofio, i ystyried ac i orffwyso. Yn Salm 46 cawn y gorchymyn i 'stopio' er mwyn cael golwg iawn ar bethau. Golwg iawn ar Dduw, arnom ni'n hunain a'r byd. Wrth stopio a myfyrio ac ystyried daw balans i'n bywydau. Gallwn gael golwg onest arnom ein hunain, gweld ein gwendidau a'n cryfderau. Mae myfyrio gyda Beibl agored yn rhoi cyfle i ni weld ac adnabod Duw. Mae'n rhoi cyfle hefyd i ni weld ei ewyllys o ar ein cyfer ni ac eraill. O wneud hyn gwelwn y gwirionedd y daeth y Salmydd i'w ddeall, 'Mae Duw yn ein cadw ni'n saff ac yn rhoi nerth i ni. Mae o bob amser yna i'n helpu pan mae trafferthion. Felly fydd gynnon ni ddim ofn hyd yn oed petai'r ddaear yn ysgwyd, a'r mynyddoedd yn syrthio i ganol y môr gyda'i donnau gwyllt yn troelli ac yn ewynnu.'

Gwyliwn rhag bod yn rhy brysur i ystyried y pethau pwysicaf sy'n perthyn i'n bywyd.

**Robert O. Roberts**
(allan o *Llais Bro Aled*, 15 Medi 2024)



## Barn Annibynnol

# Dioddefaint y Palestiniaid

Gydag ymosodiadau soffistigedig a thybiedig Israel yn Libanus yn erbyn y terfysgwyr Hezbollah, ydych chi, fel finnau wrth wrando ar fwletinau'r newyddion yn tristáu ac arswydo wrth glywed yn ddyddiol am y Palestiniaid diniwed sy'n profi dioddefaint, lladd a marwolaeth ar Lain Gaza? Lladd ar raddfa fawr gan luoedd arfog Israel, sy'n gweithredu dan gyfarwyddyd Prif Weinidog Israel Benjamin Netanyahu. Ers cychwyn y rhyfel rhwng Israel a Hamas yng nghysgod Hydref y 7fed llynedd mae yn agos i 40,000 o Balestiniaid wedi colli eu bywydau a'r rhif yn cynyddu'n ddyddiol.



Mae'n ymddangos i mi fel tasai yna hil laddiad yn digwydd yn Llain Gaza a'r Israeliaid nid yn unig am gael gwared yn llwyr ar bresenoldeb cefnogwyr Hamas yn Llain Gaza a'r Llain Orllewinol, ond am gael gwared hefyd a'r Palestiniaid. Gellir dod i'r casgliad hyn wrth feddwl nid yn unig am ddioddefaint y Palestiniaid yn Llain Gaza ond fel mae Israeliaid yn ymosod ac yn dwyn tiroedd y Palestiniaid yn y Llain Orllewinol. Oherwydd y brwydro a'r dioddef rhaid cydnabod ein bod yn teimlo'n gwbl ddiymadferth, ac yn llawn sylweddoli nad oes ateb nac atebion slic i'w cael i geisio dod o hyd i ddatrysiad a gweld heddwch ym mherthynas yr Israeliaid a'r Palestiniaid. Ond oes rhywbeth, yn rhyngwladol, ac o berthyn i'r gymuned ryngwladol, y gallwn wneud i geisio cael diwedd ar yr holl ddial a'r lladd, o'r ddau ochr?

### Gwersi 'Llurig Badrig' a 'Beyond the Pale'

Mae darllenwyr *Y Tyst* yn gwybod i mi gyfrannu ysgrifau i'r papur yn gynharach yn y flwyddyn am wersi y medrwn eu dysgu wrth ein cefndryd Gwyddelig, o gofio yr holl drafferthion yn hanes y genedl y mae Iwerddon wedi eu hwynebu ers canrif a rhagor. Wrth ddymuno profi diogelwch a gwaredigaeth rhag drygioni neges yn ymbil am arweiniad ac amddiffyn Duw welaf innau yn yr hen emyn Gwyddelig 'Llurig Badrig' a briodolir i Badrig Sant, emyn yn deisyf am gael mwynhau heddwch mewn bywyd. Ac, er yn eironig yr hyn yw tarddiad yr ymadrodd 'Beyond the Pale' y mae'n sicr nad gweithredu'n dreisiol a gorthrymus a ddylem fel y gwnaeth y Saeson yn Iwerddon tros y canrifoedd oddi ar gyfnod y Tuduriaid. Y mae yna werth hefyd mewn defnyddio tacteg a gweithredu gwleidyddol sydd wedi tarddu o Iwerddon sef 'boicotio'.

### Tarddiad yr arfer o foicotio

Y mae tarddiad y term *boycotting* ynghlwm â'r frwydr am yr hawl i'r werin i berchnogi a rhentu tir am bris rhesymol a theg, ac yn gysylltiedig â'r 'Rhyfel Tir' (Land War) a chyfnod y 'Land League' gafwyd yn Iwerddon yng nghysgod gweithredu yr Irish Republican Brotherhood ac arweiniad yr Aelod Seneddol Charles Stewart Parnell, gwleidydd a ddewisodd ymgyrchu ar eu rhan yn wythdegau y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Roedd y Frawdoliaeth a Parnell yn ymgyrchu i'r werin dlawd gael tegwch wrth rentu tir gan landlordiaid barus ac yn ceisio, yn y pendraw, adfer perchnogaeth y tir yn Iwerddon i ddwylo'r brodorion lleol a Gwyddelig. Bu'n frwydr danllyd a ffyrnig. Oherwydd anghydfod yn sgil annhegwch. Tacteg oedd y boicotio lle anogwyd y werin i gadw draw ac i wneud dim yn gymdeithasol nac yn fasnachol gyda thirfeddianwyr barus, neu gynrychiolydd ar eu rhan, fyddai'n gweithredu'n orthrymus ac yn annheg wrth godi rhent afresymol ar yr amaethwyr Gwyddelig a thlawd. Cymhwyswyd y dacteg yn gyntaf at y Capten Boycott, cynrychiolydd tirfeddiannwr barus, yn Ballinrobe yn Swydd Clare.

Y mae yna faled enwog sydd wedi tarddu o swydd Clare, ac a genir hyd y dydd heddiw, 'Three Brave Blacksmiths'. Baled am y tri gof dewr ddewisodd gyfnod yn y carchar am foicotio yn hytrach na phedoli ceffyl oedd yn eiddo i ŵr wnaeth brynu fferm, y 'grabber', a'r fferm yr oedd y 'Land League' ar y pryd yn dymuno gweld y tir yn cael ei rannu rhwng tenantiaid tlawd yn y gymdogaeth. Cafodd y tri 28 diwrnod o garchar, diwrnod am bob hoelen a fyddid wedi ei ddefnyddio i bedoli. Gellwch wrando ar y faled yn cael ei chanu ar YouTube.

### Arf pwerus

Ie, yn Iwerddon y tarddodd y dacteg neu'r arf gwleidyddol boicotio, sy'n medru bod yn arf pwerus ac effeithiol yn y frwydr yn erbyn annhegwch ac anghyfiawnder. Onid dyma ddylai pawb ei wneud bellach yn ein perthynas â gwladwriaeth Israel, o feddwl sut y maent yn trin y Palestiniaid? Mae'n dda bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ddiweddar wedi penderfynu peidio â chyflenwi Israel ag arfau amheuir byddai'n cael eu defnyddio i ymosod ar Balestiniaid, ond a ddylid mynd gam ymhellach a boicotio yn llwyr, cael dim i wneud ag Israel? Ai dyma fyddai'n dod â'r wlad at ei choed a gweld diwedd ar y lladd a'r dial di-ben-draw mae'r wlad yn gyfrifol amdanynt?

### Maddau i ddisodli dial diddiwedd

Nid dial yn ddi-ben-draw ydy'r ateb, a rhaid dod â'r cylchdro dieflig i ben. Y mae yna ateb yn Efengyl yr Arglwydd Iesu sy'n galw am barodrwydd ar ran y sawl sydd wedi dioddef i faddau i'r sawl sydd wedi troseddu yn eich erbyn, neges yn Nameg y Gwas Anfaddeugar. Os yw'n Duw yn maddau i ddynion a dynoliaeth eu holl droseddau yn ei erbyn, does bosib y gall unigolyn faddau i droseddwr am bechu yn ei erbyn. Ni fyddai hyn yn hawdd i'r Palestiniaid ei weithredu, ond fel y sylwodd un esboniwr wrth gymhwyso'r ddameg, dysgu wnaeth Iesu bod dialedd dihysbydd y dyn primitif i gael ei ddisodli gan faddeuant dihysbydd y Cristion. Cofiwn fod llawer o'r Palestiniaid yn Gristnogion. Yr Iddewon yn eu perthynas â'r Palestiniaid, a'r Palestiniaid yn eu perthynas â'r Iddewon. Pryd y dysgant gallio? A fyddai mwy o foicotio, yn rhyngwladol o'r tu allan, yn help i ddod â'r dialwyr at eu coed?

**Emyr Gwyn Evans**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# NEWYDDION CAPEL Y NANT: PERERINDOD


### Mynydd Seion

Sôn am groeso! Roedd yn hollol amlwg bod aelodau eglwys Mynydd Seion, Casnewydd, yn falch iawn o'n gweld. Cawsom eistedd o gylch y byrddau yn y capel ar gyfer oedfa gynnes. Elin Maher oedd yn llywio a chawsom neges heriol oedd y codi calon pawb. O amgylch yr un byrddau y cawsom ein cinio. Paratowyd gwledd hael ar ein cyfer. Bu'n fore ardderchog. Edrychwn ymlaen nawr at gael eu cwmni hwythau gyda ni rhyw fore Sul cyn bo hir.

### Llanfaches

Ymlaen ar fws tua'r dwyrain. Roedd rhaid dilyn lonydd digon cul i ddod i ganol y pentre. Roedd yn llawn rai tai mawr, moethus. Yno hefyd y roedd eglwys fach, hynafol St Dyfrig. Gwefr oedd cael bod yno, achos dyma'r union fan ble cafodd yr eglwys Annibynnol gynta ei sefydlu ar dir Cymru. Fan hyn, yn yr adeilad hwn y plannwyd yr hedyn cynta.

A phwy oedd yno? Ar y blaen yr oedd rheithor y plwy, y Parchg William Wroth. Piwritan oedd e, un a gredai bod angen i Gristion fod ag argyhoeddiad, a chymryd ei ffydd yn Iesu Grist o ddifri. Roedd hynny yn wahanol iawn i'r eglwys wladol ar y pryd, lle cyfrifid bod pawb yn perthyn iddi, beth bynnag eu cred a'u harfer.



A phwy arall oedd yno? William Erbury yn sicr, wedi dod o Gaerdydd; Vavasor Powell, o'r canolbarth; Morgan Llwyd efallai, o Wrecsam; Henry Jessey o Lundain. Roedd prif Biwritaniaid Cymru ac eraill yno. Roedd cnewyllyn o bobl yr ardal, wrth gwrs, a rhai wedi teithio ymhell. Mae sôn am ddyddiau cynnar yr eglwys bod brwdfrydedd a chynhesrwydd mawr yno.

Ym mis Tachwedd 1639 y bu hynny. Ond dair blynedd yn ddiweddarach dechreuodd y Rhyfel Cartre, a bu'n rhaid i'r gynulleidfa ddianc am eu bywyd i Fryste, ac i Lundain wedyn, ond roedd yr hedyn wedi'i hau.

Cawsom egwyl yng nghapel y Tabernacl hefyd, a chroeso cynnes. Roedd paned a sgwrs yn dderbyniol iawn erbyn hynny!

Troi am adre wedyn. Ond nid heb un saib arall ar y ffordd. Y Bear yn y Bont-faen oedd yn darparu swper blasus. Rhwng popeth bu'n ddiwrnod llawn a chofiadwy.

Diolch Fiona am drefnu popeth mor hwylus.

(allan o *Bwrlwm* rhif 168, Medi 2024, misolyn Capel y Nant, Clydach)



Eglwysi Bethesda'r Tymbl, Capel Seion Drefach a Nasareth Pontiets

Bydd ein Gweinidog Y Parch Gwyn Elfyn yn ymddeol ar ddiwedd Rhagfyr 2024 ac mae swyddogion ac aelodau y dair Eglwys yn dymuno galw Gweinidog newydd.

Gwahoddir Gweinidogion ordeiniedig neu rai o dan hyfforddiant i gysylltu er mwyn cael mwy o fanylion gydag un o'r canlynol:-

**Elen Davies**
**E-bost:** elentyrdynol@yahoo.co.uk
Rhif ffon: 07742 560478

neu

**Heddwyn Jones**
**E-bost:** dacefit240@yahoo.co.uk
**Rhif ffon:** 07773 959533

neu

**Gethin Thomas**
**E-bost:** gethintthomas@googlemail.com
**Rhif ffon:** 07773 688769

**Cysyllter erbyn Hydref 31ain 2024**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*